**Arweinydd Bwyd Cymunedol**

**Swydd-ddisgrifiad**

**Cyflog:** £28,344 pro rata (£14.54 yr awr)

**Oriau:** Rhan-amser (2 ddiwrnod/14 awr yr wythnos)

**Hyd:** 6 mis

**Adrodd i:** Cydlynydd(Cydlynwyr) Bwyd Powys Food

**Lleoliad:** Bydd y rôl hon wedi'i lleoli yn ein swyddfa yn y Drenewydd, gyda theithio rheolaidd yn ofynnol i safleoedd eraill ym Mhowys, yn bennaf Aberhonddu a'r Drenewydd.

**Dyddiad Cau:** 5yp 12.08.25

---

**Diben y Swydd:**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhan annatod o weledigaeth Bwyd Powys Food o "Fwyd da i BOWYS! Lle mae bwyd lleol, cynaliadwy ac iach yn cefnogi cymunedau, ei bobl a'r amgylchedd," a bydd yn cyfrannu at gryfhau gwydnwch bwyd cymunedol a gweithredu system fwyd leol.

Byddant yn gyfrifol am feithrin mwy o amrywiaeth wrth ddarparu partneriaeth drwy weithio gyda lleoliadau Dechrau'n Deg a'u teuluoedd i gynyddu nifer y blychau llysiau lleol, cefnogi'r defnydd o gardiau Cychwyn Iach ar gyfer y pryniannau hyn, a gwella hyder coginio ar gyfer prydau bwyd sy'n gyfeillgar i'r gyllideb. Bydd y rôl yn canolbwyntio'n bennaf ar gymunedau difreintiedig a mynd i'r afael â salwch sy'n gysylltiedig â deiet mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

---

**Prif Gyfrifoldebau:**

**Darparu'r Prosiect**

- Cydlynu â phartneriaid ar ddarparu gweithdai bwyd cymunedol (dosbarthiadau coginio) mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn Aberhonddu a'r Drenewydd, gan ganolbwyntio ar ryseitiau sy'n gyfeillgar i'r gyllideb gan ddefnyddio cynhwysion blychau llysiau lleol.
- Trefnu a hwyluso digwyddiadau coginio a bwyta cymunedol a rennir, gan gynnwys Gŵyl y Cynhaeaf a'r Pryd Nadolig.
- Cefnogi teuluoedd Dechrau'n Deg i gyrchu a defnyddio'r cerdyn Cychwyn Iach ar gyfer prynu blychau llysiau lleol â chymhorthdal.
- Datblygu a dosbarthu cardiau ryseitiau.
- Ymgorffori'r Cynnig Cymraeg lle bo'n briodol.
- Cynnal polisïau diogelu, iechyd a diogelwch, a diogelu data bob amser.
- Sicrhau bod gweithgareddau wedi'u hasesu o ran risg ac yn gynhwysol.

**Ymgysylltiad Cymunedol:**

- Adeiladu perthynas rhwng teuluoedd sy'n mynychu lleoliadau Dechrau'n Deg a chynhyrchwyr a chyflenwyr llysiau
- Annog teuluoedd i rannu ryseitiau ac awgrymiadau coginio i feithrin ymdeimlad o gymuned o amgylch bwyd.
- Cynyddu incwm cyfranogwyr i'r eithaf trwy fwy o ddefnydd o'r cerdyn Cychwyn Iach trwy normaleiddio ei ddefnydd ar gyfer llysiau lleol.

**Gweithio mewn Partneriaeth:**

- Cydweithio â Chyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a lleoliadau Dechrau'n Deg i sicrhau darparu prosiectau yn llyfn a chryfhau perthnasoedd gwaith.
- Cyfrannu at y nod strategol o wella iechyd a gwydnwch cymunedol, gyda'r potensial i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect peilot.

**Monitro a Gwerthuso:**

- Cadw cofnodion cywir o bresenoldeb a gweithgareddau.
- Casglu adborth gan gyfranogwyr a chyfrannu at werthuso'r prosiect.
- Adrodd yn rheolaidd i'r Cydlynydd(Cydlynwyr).

**Hyrwyddo a Gweithredu:**

Cyflawni camau gweithredu o Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bwyd Powys Food, gan gynnwys:

- Cyflwyno gweithdai bwyd cymunedol (Cam Gweithredu 12).
- Datblygu digwyddiadau dathlu bwyd (Cam Gweithredu 15).
- Adeiladu ar raglenni sgiliau maeth presennol (Cam Gweithredu 22).
- Adeiladu galw cyhoeddus a phreifat am gynnyrch lleol (Cam Gweithredu 35).
- Dylunio a chyflwyno adnoddau a gweithdai addysgol yn ymwneud â bwyd sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd a choginio a bwyta'n iach a chynaliadwy (Cam Gweithredu 43).

---

**Amcanion a Thargedau Allweddol (dros 6 mis):**

- Mae o leiaf 8 teulu mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn Aberhonddu a'r Drenewydd yn mynychu o leiaf un dosbarth coginio.
- Mae o leiaf 12 teulu mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn Aberhonddu a'r Drenewydd yn manteisio ar y cynnig o flychau llysiau lleol â chymhorthdal ac yn defnyddio eu cerdyn Cychwyn Iach i brynu yn wythnosol.
- Mae o leiaf 12 o deuluoedd mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn Aberhonddu a'r Drenewydd yn mynychu digwyddiadau dathlu bwyd (Gŵyl y Cynhaeaf a'r Pryd Nadolig).

---

**Manyleb y Person:**
**Hanfodol**

- Profiad mewn ymgysylltu cymunedol, yn enwedig gyda theuluoedd a chymunedau difreintiedig.
- Gwybodaeth am fwyta'n iach, coginio cyllideb-gyfeillgar, a systemau bwyd lleol.
- Y gallu i drefnu a chefnogi gweithdai a digwyddiadau.
- Sgiliau cyfathrebu a threfnu cryf ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
- Y gallu i weithio'n hyblyg.
- Y gallu i deithio rhwng Aberhonddu a'r Drenewydd yn rheolaidd.

- Hyfedredd mewn Google Workspace, Microsoft Office. Gwybodaeth am daenlenni a chronfeydd data.
- Ymrwymiad i roi polisïau cyfle cyfartal ar waith.

**Dymunol**

- Mae dealltwriaeth o'r cynllun Cychwyn Iach yn ddymunol.
- Cymraeg, efallai y bydd gofyn i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff a ariennir gan Cultivate. Bydd hyn yn cael ei weithredu os bydd angen yn codi am sgiliau iaith Gymraeg i gyflawni'r rôl.
- Profiad o gefnogi cyfranogwyr niwroamrywiol neu'r rhai ag anghenion ychwanegol.

---

**Manteision a Chymorth:**

- Mynediad at hyfforddiant perthnasol (e.e., diogelu, cymorth cyntaf iechyd meddwl)
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a dylunio prosiectau ar y cyd
- Amgylchedd gwaith cefnogol, sy'n canolbwyntio ar y gymuned

---

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch y swydd hon, cysylltwch ag:

admin@cultivate.uk.com

Dyddiad Cau: 5yp 12.08.25

Dyddiadau cyfweliadau w/c 20.08.25

**Gwnewch gais yn ysgrifenedig gyda datganiad personol yn ymateb i fanyleb y swydd. Nid ydym yn gallu derbyn CVs.**